

Ymgynghoriad ar safonau perfformiad newydd ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Cefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol i
gyflawni'r newid i Gofrestru Etholiadol Unigol

Mai 2013

Cynnwys

1	Datblygu safonau perfformiad newydd ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol (EROs)	1
	Pwrpas	1
	Cefndir	1
	Pontio i gofrestru etholiadol unigol	3
2	Sut y byddai'r fframwaith safonau perfformiad newydd yn gweithio	5
	Amcan	5
	Cefnogaeth	9
	Adrodd	9
3	Rhoi gwybod i ni beth yw eich barn	10
	Manylion cyswllt	10
	Canllawiau ar gyfer ymatebion	11
	Beth sy'n digwydd nesaf	12
	Safonau perfformiad newydd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol	13

1 Datblygu safonau perfformiad newydd ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol (EROs)

Pwrpas

1.1 Bydd gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol rôl hanfodol wrth gyflwyno'r newid i gofrestru etholiadol unigol (IER). O ystyried y newid sylweddol i brosesau presennol y bydd y pontio'n ei olygu, rydym yn datblygu fframwaith safonau perfformiad newydd i gefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gwrdd â'r heriau sydd ynghlwm â chyflwyno'r pontio i IER yn effeithiol.

1.2 Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff gyfle i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r fframwaith safonau perfformiad newydd, ac felly yr ydym yn awr yn gwahodd sylwadau gan y gymuned etholiadol i lywio'r gwaith hwn.

1.3 Mae'r papur hwn yn nodi sut y bydd y fframwaith safonau perfformiad arfaethedig yn gweithio ac yn benodol sut y bydd yn cael ei ddefnyddio i adnabod y Swyddogion Cofrestru Etholiadol hynny sydd fwyaf o angen cymorth er mwyn sicrhau darparu'r pontio'n effeithiol. Mae'r papur yn ceisio barn ar p'un a fydd y fframwaith newydd yn effeithiol wrth fesur pa mor dda y mae heriau'r cyfnod pontio i IER yn cael eu bodloni.

Cefndir

1.4 Rhoddodd y Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 bwerau i'r Comisiwn Etholiadol osod a monitro safonau perfformiad ar gyfer gwasanaethau etholiadol¹. O dan y darpariaethau hyn, gall y Comisiwn:

- bennu a chyhoeddi safonau perfformiad ar gyfer swyddogion etholiadol perthnasol ym Mhrydain Fawr (Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif)

¹ Nid yw'r fframwaith safonau perfformiad presennol a gyflwynwyd gan y DGE yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon; fodd bynnag, mae set o safonau cofrestru drafft wedi cael eu cytuno gyda'r Swyddfa Etholiadol ar gyfer Gogledd Iwerddon (EONI) ac ar hyn o bryd rydym yn treialu'r safonau drafft a gofynion tystiolaeth.

- cyfarwyddo swyddogion perthnasol yn uniongyrchol i ddarparu i'r Comisiwn adroddiadau ynghylch eu perfformiad yn erbyn y safonau a gyhoeddwyd
- cyhoeddi ei asesiad o lefel perfformiad gan swyddogion perthnasol yn erbyn y safonau a gyhoeddwyd

1.5 Ym mis Gorffennaf 2008 cyhoeddodd y Comisiwn safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol ac mae wedi monitro ac adrodd ar berfformiad Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn erbyn y safonau bob blwyddyn ers hynny.²

1.6 Mae'r fframwaith safonau perfformiad cyfredol wedi ei gynllunio i ddarparu darlun clir i Swyddogion Cofrestru Etholiadol o'r hyn sydd ei angen er mwyn cefnogi proses gofrestru etholiadol a gynhelir yn dda, a darparu proses wrthrychol ar gyfer asesu perfformiad yn erbyn safonau cyffredin y cytunwyd arnynt. Ers 2008 bu gwelliant cynyddol mewn perfformiad yn erbyn y safonau, gyda chynnydd sylweddol yn y nifer o Swyddogion Cofrestru Etholiadol sy'n bodloni'r safonau dros y pum mlynedd diwethaf. Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol, gyda'r mwyafrif o Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn awr â chynlluniau ffurfiol wedi'u dogfennu yn eu lle i sicrhau bod eu prosesau cofrestru etholiadol yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn arwain at y canlyniadau gorau bosibl i etholwyr.

1.7 Fodd bynnag, mae rhai agweddau perfformiad lle mae meysydd yn parhau i beri pryder, yn bennaf mewn perthynas â pherfformiad Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn erbyn safon gyfredol 3: ymholiadau o dŷ i dŷ. Er y cafwyd gwelliant mewn perfformiad yn erbyn y safon hon ers 2011 pan na wnaeth 58 o Swyddogion Cofrestru Etholiadol (15%) gyrraedd y safon, mae 30 o Swyddogion Cofrestru Etholiadol (8%) yn dal i fethu â chwrdd â'r safon, ac yr ydym am sicrhau bod y nifer hwn yn lleihau ymhellach.

1.8 Mae'r safon hon yn anelu at sicrhau y bydd eiddo nad yw wedi ymateb i'r canfas blyneddol a ble nad yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn fodlon fel arall bod etholwyr cymwys yn preswyllo yn yr eiddo yn destun i ymholiadau o dŷ i dŷ ar o leiaf un neu fwy o achlysuron. Fel rhan o'n hasesiad o berfformiad Swyddog Cofrestru Etholiadol yn erbyn y safon, yr ydym yn ystyried i ba raddau y mae ymholiadau o dŷ i dŷ yn cael eu cynnal; pa ddulliau eraill, os o gwbl, sy'n cael eu defnyddio yn ychwanegol at y camau a bennir yn Adran 9A o RPA 1983 (er enghraifft, dros y ffôn, e-bost, canfasio personol y tu allan i'r cyfnod canfas, canfas bach, ayb); a chanlyniadau'r canfas.

1.9 Wrth baratoi ar gyfer y cyfnod pontio i IER, mae'n arbennig o bwysig bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn sicrhau eu bod yn gwneud popeth o fewn eu gallu yn awr i sicrhau bod eu cofrestri mor gyflawn a chywir â phosibl drwy

² Gellir gweld y safonau perfformiad cyfredol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn: www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0007/57949/Performancestandards-2008-06-25_final-webres.pdf.

gymryd pob cam sydd ar gael - gan gynnwys cynnal ymholiadau o dŷ i dŷ a defnyddio'r data lleol sydd ar gael i nodi a thargeddu etholwyr posibl - cyn i'r cyfnod pontio i IER ddechrau.

1.10 Bydd canfas cynhwysfawr yn 2013-14 yn helpu i sicrhau'r nifer mwyaf bosibl o etholwyr y gellir eu 'cadarnhau' yn ystod y cyfnod pontio, a fydd yn ei dro yn helpu i leihau nifer yr etholwyr y bydd angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol eu holrhain, a'u gwahodd i gofrestru'n unigol. Felly bwriadwn barhau i ddefnyddio'r safonau presennol i fonitro perfformiad cyn y canfas aelwyd olaf yn 2013. **Gan y bydd y fframwaith safonau perfformiad newydd yn ei le erbyn diwedd Medi 2013, mae hyn yn golygu y bydd cyfnod rhwng diwedd Medi 2013 a gwanwyn 2014 pan fydd y ddwy set o safonau mewn grym, a byddwn yn gweithio i sicrhau bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff yn glir ynghylch beth mae hyn yn ei olygu iddynt hwy'n ymarferol.**

Pontio i gofrestru etholiadol unigol

1.11 Ar 31 Ionawr, 2013 derbyniodd y Ddeddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol (Deddf ERA) Gydsyniad Brenhinol, gan baratoi'r ffordd ar gyfer cyflwyno cofrestru etholiadol unigol (IER) ym Mhrydain Fawr o haf 2014 ymlaen. Er bod rhai o'r gweithgareddau allweddol sydd i'w gwneud wrth gyflenwi IER yn debyg neu'n seiliedig i raddau helaeth ar brosesau y mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol eisoes yn eu dilyn, bydd nifer o agweddau arwyddocaol ar y broses a fydd yn wahanol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

1.12 Er mwyn cyflenwi'r cyfnod pontio i IER yn effeithiol, bydd yn hanfodol bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol:

- **Yn deall yr heriau penodol yn eu hardal gofrestru a datblygu cynllun ar gyfer ymgysylltu â phreswylwyr sy'n ymateb i'r heriau hyn.**

Fel rhan o'r cyfnod pontio i IER, bydd angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gymharu enwau a chyfeiriadau etholwyr presennol ar y cofrestri etholiadol gyda chofnodion a gedwir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) er mwyn 'cadarnhau' hunaniaeth y bobl sydd ar y cofrestri presennol. Bydd y lefelau cadarnhad yn amrywio o fewn ardal y Swyddog Cofrestru Etholiadol ac ar draws gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol, ac felly gall natur a maint yr heriau sy'n wynebu gwahanol Swyddogion Cofrestru Etholiadol amrywio'n sylweddol. Bydd dadansoddiad o ganlyniadau'r arbrawf cadarnhad sy'n cael ei gynnal yn ystod haf 2013 yn helpu Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ddeall yr heriau sy'n berthnasol iddynt a bydd yn llywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd yn lleol. Unwaith y bydd y strategaeth hon yn ei lle, dylai manylion am sut y bydd yn cael ei rhoi ar waith gael eu hymgorffori o fewn cynllun gweithredu cyffredinol y Swyddog Cofrestru Etholiadol, sy'n cynnwys popeth y mae angen ei wneud i ddarparu'r pontio'n effeithiol. Bydd y Comisiwn yn darparu templed

strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd, cynllun gweithredu a chofrestr risg i gefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol wrth baratoi ar gyfer y pontio.

- **Cyflwyno eu cynllun gweithredu lleol, monitro cynnydd a gwneud diwygiadau lle bo angen**

Bydd angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol weithredu eu cynlluniau i dargedu eu hetholwyr yn y modd mwyaf effeithiol. Bydd angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol sicrhau bod ganddynt systemau ar waith i olrhain cynnydd yn erbyn eu cynlluniau, gan eu galluogi i fonitro a gwerthuso eu cynnydd a diwygio eu cynlluniau yn ôl yr angen, a'u helpu i allu targedu eu hadnoddau yn briodol.

1.13 Bydd y Comisiwn yn cynhyrchu canllawiau ac offerynnau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, fel templedi sy'n seiliedig ar ymwybyddiaeth y cyhoedd cenedlaethol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol eu defnyddio'n lleol, yn ogystal â fersiynau diwygiedig o'r mathau o adnoddau y mae'r Comisiwn yn eu darparu ar hyn o bryd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, sy'n cynnwys offerynnau ac adnoddau cynllunio i gefnogi canfaswyr. Fel gyda'r canllawiau a gynhyrchwyd yn flaenorol gan y Comisiwn i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, byddant yn cael eu cynllunio i ddarparu canllawiau pen-i-ben ar reoli gwasanaethau cofrestru etholiadol yn ystod y cyfnod hwn. Bydd y canllawiau'n gweithio ochr yn ochr â'r fframwaith safonau perfformiad newydd i gefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ymateb i'r heriau sydd ynghlwm wrth gyflawni'r pontio i IER yn effeithiol. Bydd y canllawiau hefyd yn tynnu sylw at ba wybodaeth a data y gallem ofyn amdanynt fel rhan o'r broses fonitro.

1.14 Bydd y Comisiwn yn defnyddio'r fframwaith safonau perfformiad newydd i:

- adolygu'r strategaethau a chynlluniau sydd gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn eu lle, gan sicrhau bod dadansoddiad cynhwysfawr ac asesiad o ganlyniadau'r ymarfer cadarnhad wedi'u gwneud, a'u bod wedi dylanwadu ar eu cynllunio ar gyfer y cyfnod pontio
- monitro gweithrediad y cynlluniau gweithredu ac adolygu eu heffeithiolrwydd
- nodi lle gellir cael problemau, fel y gellir rhoi cymorth wedi'i dargedu i'r rhai sydd ei angen fwyaf
- llywio asesiad o ba mor effeithiol fu'r prosesau a ddefnyddiwyd gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol unigol, yn ogystal â hysbysu asesiad ehangach o effeithiolrwydd gweithredu

2 Sut y byddai'r fframwaith safonau perfformiad newydd yn gweithio

2.1 Wrth ddatblygu'r fframwaith safonau perfformiad newydd, rydym wedi adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd gennym o fonitro perfformiad Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau (ROs) dros y pum mlynedd diwethaf. Rydym hefyd wedi ceisio ymateb i'r adborth a gawsom, gan gynnwys trwy ein harolwg rhanddeiliaid diweddar.

Amcan

2.2 Amcan cyffredinol y fframwaith safonau perfformiad newydd yw cefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol wrth gynllunio ar gyfer a chyflwyno'r cyfnod pontio i IER. Bydd y fframwaith newydd yn berthnasol i'r cyfnod pontio yn unig, a bydd ar waith o hydref 2013 hyd at fis Mai 2015. Bydd y fframwaith yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn dilyn ymgynghoriad, gyda'r safonau newydd yn dod i rym ar ôl etholiadau Mai 2015.

2.3 Rydym wedi datblygu'r fframwaith newydd o amgylch yr heriau allweddol sy'n wynebu Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn y cyfnod pontio; rydym am ganolbwyntio ar yr hyn y bydd angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ei wneud a'i wybod er mwyn cyflwyno'r cyfnod pontio'n effeithiol, a pha wybodaeth fydd y Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'r Comisiwn ei hangen er mwyn penderfynu a yw'r heriau hyn yn cael eu bodloni.

2.4 Mae'r fframwaith arfaethedig yn nodi:

- yr heriau allweddol sy'n wynebu Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn ystod y cyfnod pontio i IER
- beth sydd angen i'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol ei wneud i gwrdd â'r heriau
- beth fydd yn dangos sut mae'r heriau wedi cael eu bodloni

2.5 Yn y bôn mae'r safonau'n ceisio sefydlu p'un a oes gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol gynlluniau ar waith sy'n seiliedig ar ddadansoddiad o'u hamgylchiadau lleol penodol, a p'un a ydynt yn gweithio'n ymarferol.

2.6 Rydym wedi ceisio canolbwyntio ar y data a gwybodaeth berthnasol a fydd eisoes yn cael eu cynhyrchu a'u defnyddio gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff i lywio sut y maent yn cynllunio ar gyfer a chyflenwi'r cyfnod pontio. Yn ogystal â'n galluogi ni i dargedu cymorth lle bo'i angen, bydd y Comisiwn a Swyddfa'r Cabinet eisieu gallu adeiladu darlun cynhwysfawr o ba gynnydd sy'n cael ei wneud trwy gydol y cyfnod pontio i ddeall sut y mae'n gweithio ar draws Prydain Fawr.

2.7 Er bod y fframwaith safonau perfformiad newydd yn anelu at sicrhau cysondeb yn y gwasanaeth i etholwyr, rydym yn cydnabod y bydd yr heriau unigol a wynebir gan bob Swyddog Cofrestru Etholiadol yn amrywio gan ddibynnu ar yr amgylchiadau lleol ym mhob ardal. Dangosodd ein hadroddiad gwerthuso ar y cynlluniau peilot i asesu defnyddioldeb a dibynadwyedd y broses gadarnhau arfaethedig bod y canlyniadau'n amrywio rhwng ardaloedd peilot a bod y lefelau cadarnhad yn annhebygol o fod yn gyson ar draws Prydain Fawr.³ Felly bydd natur a maint yr heriau sy'n wynebu gwahanol Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn amrywio'n sylweddol. O ganlyniad, mae'r fframwaith newydd yn anelu at fod yn hyblyg, gan ystyried yr amgylchiadau gwahanol ar draws awdurdodau lleol.

Beth sydd angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ei wneud i gwrdd â'r heriau?

2.8 Mae ein canllawiau, a fydd yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad agos â Bwrdd Ymgynghorol Etholiadau'r DU (EAB), y Gweithgor Etholiadau, Cofrestru a Refferenda (ERRWG), yn anelu at nodi beth fydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn ei ddisgwyl gan eu staff er mwyn paratoi ar gyfer a chyflenwi IER yn llwyddiannus. Yn yr un modd, yr ydym am i'r fframwaith safonau perfformiad newydd adlewyrchu'r hyn yr ydym ni, EAB y DU a'r ERRWG yn ei gytuno sydd angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ei wneud i sicrhau pontio llwyddiannus i IER, a sut fydd llwyddiant yn edrych. Bydd y safonau'n canolbwyntio ar y meysydd allweddol o weithgaredd a fydd yn ffurfio rhan o'r pontio. Caiff y canllawiau eu cynllunio i weithio ochr yn ochr â'r safonau a byddant yn nodi'n fanwl yr hyn y bydd angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ei wneud i gwrdd â'r heriau, a'r hyn y byddem yn disgwyl ei weld i ddangos sut y cafodd yr heriau eu bodloni.

2.9 Y ddau faes ffocws allweddol fydd y strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd yn lleol a'r cynllun gweithredu. Bydd y ddau'n cael eu diffinio'n fanwl yn ein canllawiau paratoi ar gyfer IER, a fyddant yn cael eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2013; ar yr un pryd, bydd templedi ar gael i gynorthwyo Swyddogion Cofrestru Etholiadol wrth ddatblygu'r rhain, yn nodi pob peth y byddem yn disgwyl iddo gael ei gynnwys.

2.10 Yn gryno, dylai'r **strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd** nodi'r heriau ar gyfer yr ardal leol a pha fecanweithiau a ddefnyddir i ymgysylltu â phreswylwyr er mwyn sicrhau cofrestru'r nifer fwyaf bosibl ar y gofrestr IER. Dylai hyn gynnwys:

- Dadansoddiad o ganlyniadau'r arbrawf cadarnhad a gwybodaeth arall sydd ar gael
- Nodi'r gwahanol grwpiau o breswylwyr a pha ddulliau a fydd yn cael eu defnyddio i dargedu pob un o'r rhain

³ Peilot paru data: y broses gadarnhad – adorddiad gwerthuso, Ebrill 2013.

- Dadansoddiad o ba bartneriaid lleol y gellir eu defnyddio i gefnogi lledaenu negeseuon a sut y gall y berthynas â'r rhain gael ei sefydlu
- Dadansoddiad o ba weithgareddau ymwybyddiaeth y cyhoedd y gellir eu defnyddio i gefnogi ymgysylltu uniongyrchol â phreswylwyr, gan gynnwys hysbysebu y telir amdano ac na thelir amdano

2.11 Dylai'r **cynllun gweithredu** nodi sut y bydd y cyfnod pontio'n cael ei gyflwyno, a dylai gwmpasu meysydd gan gynnwys:

- Nodi'r adnoddau angenrheidiol, gan gynnwys nodi'r gofynion staffio ac unrhyw drefniadau recriwtio angenrheidiol
- Nodi'r anghenion hyfforddi, gan ymgorffori ffynonellau hyfforddiant allanol a mewnol, megis briffiadau'r Comisiwn
- Rheolaeth ar gontractwyr a chyflenwyr, gan gynnwys argraffwyr a chyflenwyr meddalwedd
- Gweithredu'r strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys sut y bydd cysylltiad uniongyrchol â phreswylwyr yn cael ei reoli
- Manylion ynghylch sut y bydd y camau angenrheidiol a nodir yn Adran 9A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn cael eu cyflawni, yn ystod y canfas a thrwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys arwain i fyny at etholiadau Mai 2015
- Prosesau i nodi unrhyw batrymau o weithgaredd a allai fod yn arwydd o broblemau cywirdeb posibl, gan gynnwys pa gamau sydd i'w cymryd i ddelio ag unrhyw broblemau o'r fath

Beth fydd yn dangos sut y mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi ymateb i'r her?

2.12 Mae'r fframwaith newydd yn nodi'r wybodaeth y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'r Comisiwn eisiau ei gwybod er mwyn deall pa gynnydd sy'n cael ei wneud drwy gydol y cyfnod pontio. Bydd hyn yn cynnwys data cyd-destunol i'n helpu ni a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddeall cwmpas a maint yr heriau a pha gynnydd sy'n cael ei wneud mewn ymateb i'r rhain. Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon i ddangos eu bod wedi gwneud pob peth y gallant i sicrhau pontio llwyddiannus, a bydd yn gallu rhannu'r wybodaeth hon yn lleol, gan gynnwys â chynrychiolwyr etholedig, er mwyn dangos y cynnydd sy'n cael ei wneud. Yn yr un modd, bydd y Comisiwn yn gallu gweld sut mae heriau'r cyfnod pontio i IER yn cael eu bodloni, a lle bo materion yn cael eu nodi, i weithio gyda Swyddogion Cofrestru Etholiadol i roi'r trefniadau angenrheidiol yn eu lle.

2.13 Yn ystod hydref 2013, bydd strategaethau ymgysylltu'r holl Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cael eu hadolygu er mwyn deall beth yw'r heriau sy'n wynebu pob Swyddog Cofrestru Etholiadol a sut y maent yn bwriadu ymateb i'r rhain. Yn ogystal, efallai y byddwn yn ceisio adolygu cynlluniau gweithredu llawn sampl o Swyddogion Cofrestru Etholiadol, er mwyn penderfynu sut y maent yn bwriadu cyflenwi'r pontio yn ei gyfanrwydd. Byddwn yn rhoi canllawiau, offerynnau a thempledi i Swyddogion Cofrestru Etholiadol i'w cefnogi yn eu cynllunio. Bydd y rhain yn nodi'r hyn rydym yn

disgwyl i Swyddogion Cofrestru Etholiadol eu cael yn eu lle, a'r hyn y byddem yn disgwyl ei weld yn yr adolygiad o'r ddogfennaeth, er mwyn medru bod yn fodlon eu bod wedi cwrdd â her y cyfnod pontio.

2.14 Byddwn yn nodi lle mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol angen cymorth, fel y gallant wneud newidiadau i'w cynlluniau a phrosesau i sicrhau bod heriau'r pontio'n cael eu bodloni'n effeithiol. Mae'n bwysig bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cadw eu cynlluniau dan adolygiad rheolaidd, ac yn defnyddio'r rhain i fonitro cynnydd drwy gydol y cyfnod pontio, a byddwn yn parhau i weithio gyda Swyddogion Cofrestru Etholiadol, yn enwedig lle rydym yn nodi bod heriau sylweddol, neu lle y cafwyd materion penodol, i gefnogi'r gwaith hwn.

2.15 Bydd y data'n bwysig trwy gydol y cyfnod gweithredu, yn cefnogi dadansoddiad o ba mor effeithiol yw'r prosesau a ddefnyddir gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol, yn ogystal â dangos pa mor effeithiol y cafodd gweithrediad IER yn ei gyfanrwydd ei gyflwyno. Bydd ffocws nid yn unig ar y canlyniadau cyffredinol, ond ar yr hyn a alluogodd cyflawni'r canlyniad hwnnw, ac effeithiolrwydd y mecanweithiau a ddefnyddiwyd gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Bydd angen i bob Swyddog Cofrestru Etholiadol ddeall yr hyn y mae'r data yn ei ddweud wrthynt am ba mor effeithiol yw eu prosesau, a'i ddefnyddio i gadw eu trefniadau o dan adolygiad trwy gydol y cyfnod pontio. Bydd y Comisiwn yn cynorthwyo Swyddogion Cofrestru Etholiadol wrth werthuso a dadansoddi data a sut mae'n effeithio ar y gwaith y maent yn ei wneud. Wrth wneud hynny, byddwn yn ceisio nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda ac yn rhannu'r enghreifftiau hyn fel y gall y Swyddogion Cofrestru Etholiadol hynny sydd angen cefnogaeth elwa o brofiadau pobl eraill.

2.16 Bydd amllder casglu'r data yn amrywio gan ddibynnu ar y data penodol y gofynnwyd amdano, gyda rhywfaint o ddata angen un ffurflen, ac eraill angen cwblhau aml ffurflenni.

2.17 Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn mae gennym ddiddordeb arbennig mewn ceisio barn am y wybodaeth y bydd angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a'r Comisiwn, ei chael er mwyn asesu pa mor effeithiol fu'r prosesau a ddefnyddiwyd gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a pha mor aml y dylai'r wybodaeth hon gael ei hadolygu. Rydym hefyd yn awyddus i glywed p'un a yw'r fframwaith newydd wedi cyflenwi'r cydbwysedd cywir rhwng casglu gwybodaeth a data perthnasol, a gosod rhwymedigaeth ddiangen ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

2.18 Yr ydym eisoes wedi dweud wrth Swyddfa'r Cabinet beth yw'r mathau o wybodaeth yr ydym yn disgwyl eu casglu i alluogi i'r gofynion hyn gael eu hadeiladu i mewn i'r systemau meddalwedd rheoli etholiadol (EMS), fel ei fod yn gwneud y broses mor syml â phosibl i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a helpu i sicrhau cwblhau ffurflenni'n gyson. Rydym yn deall bod Swyddfa'r Cabinet wedi cynnwys y gofynion yn y manylebau drafft a ddarperir i'r cyflenwyr EMS, ac er na ragwelir unrhyw faterion gydag ymgorffori'r rhain, ni allwn gadarnhau ar hyn o bryd y bydd y gofynion hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y systemau terfynol. Byddwn yn parhau i weithio gyda Swyddfa'r Cabinet, a gyda'r cyflenwyr meddalwedd, i geisio cyflawni hyn. Byddem yn croesawu

barn ar beth fyddai'r effaith ar gynhyrchu data os na all y casglu data fod yn broses awtomataidd, i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wrth fonitro cynnydd o sut mae'r heriau yn cael eu cwrdd, ac yn y ddarpariaeth o ddata i'r Comisiwn.

2.19 Rydym hefyd wedi bod yn ymgymryd â gwaith i geisio gwella'r broses o gwblhau a chyflwyno data i ni. Wrth wneud hyn, rydym wedi cyflwyno proses ar y we ar gyfer ein safonau perfformiad i Swyddogion Canlyniadau (ROs), lle gofynnir i bob Swyddog Canlyniadau gwblhau cyfres o ffurflenni ar-lein yn hytrach na gofyn iddynt gwblhau ffurflenni ar ffurf taenlen Excel. Yn amodol ar werthusiad o sut mae hyn wedi gweithio yn etholiadau Mai 2013, rydym yn bwriadu cyflwyno system debyg i gasglu'r data cyd-destunol fel y nodir yn y fframwaith arfaethedig.

Cefnogaeth

2.20 Y nod drwy gydol y cyfnod pontio yw darparu cefnogaeth barhaus lle bo angen, boed hynny trwy ein canllawiau, offerynnau a thempledi neu drwy ein timau ar draws Lloegr, yr Alban a Chymru, i gynorthwyo Swyddogion Cofrestru Etholiadol lle bo angen er mwyn darparu'r cyfnod pontio i IER yn effeithiol. Byddwn yn gweithio gyda Swyddogion Cofrestru Etholiadol lle bo angen i roi trefniadau yn eu lle i sicrhau eu bod yn y sefyllfa orau bosibl i ddarparu'r pontio.

2.21 Er y bydd cefnogaeth yn cael ei darparu trwy ein timau ar draws Lloegr, yr Alban a Chymru, byddwn hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid allanol eraill, megis Rheolwyr Cyflenwi Rhanbarthol Swyddfa'r Cabinet, er mwyn sefydlu p'un a sut y gallant helpu i gefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol unigol lle bo angen. Rydym hefyd yn awyddus i annog a chefnogi gwasanaethau etholiadol a thimau cofrestru etholiadol i sefydlu ac adeiladu ar rwydweithiau cyfredol i rannu profiadau ac enghreifftiau drwy gefnogaeth cyfoedion, gan sicrhau y gall y Swyddogion Cofrestru Etholiadol hynny sydd angen cefnogaeth elwa o brofiadau Swyddogion Cofrestru Etholiadol eraill sydd wedi wynebu heriau tebyg. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ar ein dull o ddarparu cefnogaeth a'r dulliau gorau o wneud hynny.

Adrodd

2.22 Er bod pwyslais y fframwaith newydd ar nodi lle mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol angen cymorth yn ystod y cyfnod pontio, byddwn yn gwneud asesiad o p'un a yw'r safon wedi cael ei bodloni ar ddau bwynt yn ystod y cyfnod pontio: yng ngwanwyn 2014, byddwn yn adrodd ar ba mor barod yw'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gyflwyno'r cyfnod pontio i IER a pherfformiad yn erbyn safon arfaethedig un; a chyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl etholiadau Mai 2015, byddwn yn cyhoeddi adroddiad pellach ar berfformiad Swyddogion Cofrestru Etholiadol sy'n canolbwyntio ar yr heriau a amlinellwyd yn safon arfaethedig dau.

3 Rhoi gwybod i ni beth yw eich barn

3.1 O dan Adran 9A(3) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), mae'n ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol ac unrhyw berson priodol arall cyn penderfynu neu gyhoeddi safonau perfformiad i Swyddogion Cofrestru Etholiadol (EROs).

3.2 Rydym wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am ei farn ar y safonau perfformiad arfaethedig a amlinellir yn y papur hwn. Mae'r papur ymgynghori hwn hefyd wedi cael ei anfon at yr holl Swyddogion Cofrestru Etholiadol ym Mhrydain Fawr, ac i nifer o asiantaethau, cyrff proffesiynol, a sefydliadau cynrychioliadol gan gynnwys:

- Swyddfa'r Cabinet
- Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol
- Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE)
- Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA)
- Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban
- Cymdeithas Aseswyr yr Alban (SAA)
- Cymdeithas Cyfreithwyr a Gweinyddwyr Awdurdod Lleol yn yr Alban (SOLAR)
- Llywodraeth yr Alban
- Llywodraeth Cymru
- Pleidiau gwleidyddol
- Cymdeithasau llywodraeth leol
- Cyflenwyr meddalwedd rheoli etholiadol
- Cynrychiolwyr etholedig

3.3 Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff gyfle i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r fframwaith safonau perfformiad newydd. Rydym am i'r fframwaith safonau perfformiad newydd adlewyrchu'r hyn yr ydym ni, EAB y DU ac ERRWG yn cytuno sydd angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ei wneud i sicrhau pontio llwyddiannus i IER.

3.4 Byddwn yn hapus i drefnu cyfarfodydd gydag unrhyw un o'r grwpiau uchod ac unrhyw unigolion neu grwpiau eraill sydd â diddordeb ar gais.

Manylion cyswllt

3.5 Byddem yn ddiolchgar pe baech yn dychwelyd unrhyw ymatebion i'r manylion cyswllt a nodir isod, naill ai drwy'r post, ffacs neu e-bost. Rydym hefyd yn hapus i dderbyn unrhyw sylwadau dros y ffôn trwy eich tîm Comisiwn lleol.

3.6 Anfonwch eich ymateb at:

Ian Fraser
Project Officer – Performance Standards
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London
EC1Y 8YZ
Ffôn: 020 7271 0658
Ffacs: 020 7271 0505
E-bost: performancestandardsinbox@electoralcommission.org.uk

3.7 Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw **dydd Llun 15 Gorffennaf, 2013**. Er y gallwn ystyried ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn, ni allwn warantu y byddwn yn gallu gwneud hynny.

3.8 Os ydych yn rhagweld unrhyw anawsterau i ymateb i'r ymgynghoriad hwn, os gwelwch yn dda peidiwch ag oedi rhag cysylltu â ni. Fel y trafodwyd uchod, byddwn yn hapus i gwrdd ag unigolion a grwpiau sydd am fynegi eu barn i ni'n bersonol, a gall hyn hefyd fod yn opsiwn i'r rhai sy'n brin o amser i ymateb.

3.9 Er mwyn ein cynorthwyo i ddadansoddi canlyniadau'r ymgynghoriad hwn, bydd yn ddefnyddiol i ymatebwyr wneud yn glir ym mha gapasiti neu ar ran bwy y maent yn ymateb. Felly efallai y byddwn yn cysylltu ag ymatebwyr am wybodaeth bellach ynglŷn â statws eu cyflwyniad os nad yw hynny'n amlwg ar unwaith yn yr ymateb. Yn ogystal, efallai y byddwn eisiau cyhoeddi'r ymatebion a gafwyd i'r papur ymgynghori hwn, neu eu gwneud ar gael i'w harchwilio.

3.10 Ein nod yw cyhoeddi'r safonau terfynol ym mis Medi 2013 er mwyn rhoi digon o amser i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ymgorffori'r safonau yn eu cynllunio ar gyfer IER.

Canllawiau ar gyfer ymatebion

3.11 Rydym yn ceisio barn ar y fframwaith safonau perfformiad newydd a'n dull arfaethedig o sut y bydd yn gweithio. Efallai yr hoffai ymatebwyr ystyried y cwestiynau canlynol fel rhan o'u hymateb:

- A fydd y fframwaith newydd yn effeithiol wrth fesur pa mor dda y mae heriau'r cyfnod pontio i IER yn cael eu bodloni?
- A fydd y fframwaith newydd yn sicrhau cysondeb yn y gwasanaeth i etholwyr tra'n dal i gydnabod gwahanol amgylchiadau lleol?
- A yw'r dogfennau a data yn mynd i fod yn ddefnyddiol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol?
 - A fyddant yn helpu Swyddogion Cofrestru Etholiadol i fonitro cynnydd?

- Os na, beth fyddai'n fwy defnyddiol?
- A fyddai unrhyw anawsterau i gyflenwi unrhyw rai o'r dogfennau/ data?
- Pa mor aml fyddai'n ddefnyddiol adolygu'r dogfennau/ data?
- A fyddai casglu'r dogfennau/ data yn golygu cost ychwanegol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol?
- Sut ddylid adolygu'r wybodaeth a ddarperir i ddangos y ffordd mae'r heriau'n cael eu bodloni?
 - A ddylai'r Comisiwn gynnal yr adolygiad mewn ffordd debyg i'r modd y caiff ffurflenni safonau perfformiad eu hadolygu ar hyn o bryd?
 - A oes opsiynau eraill y dylid eu harchwilio?
- A fydd y fframwaith yn helpu i adnabod y Swyddogion Cofrestru Etholiadol sydd angen cymorth, a beth yw'r dulliau gorau ar gyfer darparu'r cymorth hwn?
 - A oes rôl i gefnogaeth cyfoedion?
 - A oes unrhyw fecanweithiau eraill ar gyfer darparu cymorth y dylid eu harchwilio?

Beth sy'n digwydd nesaf

3.12 Ar ôl i'r ymgynghoriad hwn ar y safonau fframwaith perfformiad newydd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddod i ben, byddwn yn adolygu'r ymatebion a dderbyniwyd, ac yn ystyried unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r ymatebion hynny. Yna byddwn yn ymgynghori ag EAB y DU ar unrhyw ddiwygiadau neu addasiadau cyn cyhoeddi'r safonau perfformiad i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ym Medi 2013, ochr yn ochr â'n canllawiau, offerynnau a thempledi i gefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol wrth gyflenwi'r pontio i IER.

3.13 Rydym yn ymgynghori ar wahân ar ddatblygiad y canllawiau manwl y byddwn yn eu cynhyrchu. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan ar www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/electoral-registration.

Safonau perfformiad newydd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Safon perfformiad 1: Deall yr heriau penodol yn eich ardal gofrestru chi a datblygu cynllun ar gyfer ymgysylltu â phreswylwyr sy'n ymateb i'r heriau hyn

Yr her	Beth sydd angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ei wneud i gwrdd â'r her?	Beth fydd yn dangos sut y mae'r her wedi cael ei bodloni?
<p>Defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys data o'r arbrawf cadarnhad, er mwyn deall yr heriau allweddol yn eich ardal leol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal dadansoddiad ac asesiad cynhwysfawr o ganlyniadau'r arbrawf cadarnhad a defnyddio hyn i lywio cynllunio ar gyfer y cyfnod pontio, gan nodi'r heriau allweddol a wynebir yn lleol a ffyrdd o ateb yr heriau hynny, gan gynnwys sut y byddwch yn targedu orau'r preswylwyr hynny na fyddant yn cael eu cadarnhau • Ystyried paru data lleol lle bo hynny'n briodol, gan asesu cadernid y ffynhonnell ddata a safon y paru 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun gweithredu, strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd a chofrestr risg, yn ymdrin â'r meysydd allweddol a nodir yng nghanllawiau'r Comisiwn Etholiadol • Penderfyniadau wedi'u dogfennu'n ynghylch p'un a yw paru data lleol yn addas, a lle mae paru data lleol yn cael ei wneud, rhestr o'r ffynonellau data i'w defnyddio, sut mae cadernid y data wedi cael ei asesu, a pha safon paru fydd yn cael ei defnyddio

Data cyd-destunol yn dangos cwmpas a maint yr her

- Nifer y preswylwyr wedi'u graddio'n goch, ambr a gwyrdd yn dilyn paru yn erbyn data'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ystod yr arbrawf cadarnhad

Safon perfformiad 2: Cyflenwi eich cynllun gweithredu, monitro cynnydd a gwneud diwygiadau lle bo angen

Yr her	Beth sydd angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ei wneud i gwrdd â'r her?	Beth fydd yn dangos sut y mae'r her wedi cael ei bodloni?
<p>Cyflenwi eich cynllun gweithredu'n effeithiol, gan sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol, gan ddefnyddio data sydd ar gael i fonitro cynnydd a'i gadw o dan adolygiad</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi ac asesu canlyniadau'r broses gadarnhau, gan gynnwys adolygu sut mae'r rhain yn cymharu â chanlyniadau'r arbrawf cadarnhad • Targedu preswylwyr nad ydynt wedi cael eu cadarnhau i'w cael i gofrestru'n unigol a monitro cynnydd • Anfon ffurflenni ymholiadau aelwyd i bob eiddo perthnasol • Cynnal yr holl gamau angenrheidiol fel y nodir yn Adran 9A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 • Nodi a thargedu grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru 	<ul style="list-style-type: none"> • Strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'i diweddarau yn ôl yr angen i adlewyrchu canlyniadau'r broses gadarnhau • Cynllun gweithredu wedi'i ddiweddarau yn ôl yr angen, gan gynnwys i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed

	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal gweithgarwch cofrestru yn gynnar yn 2015 	
Cyhoeddiad amserol⁴ a chyflenwi'r gofrestr ddiwygiedig i'r sawl sydd â hawl i'w chael	<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi a chyflenwi'r gofrestr ddiwygiedig i'r sawl sydd â hawl i'w chael 	<ul style="list-style-type: none"> • Dyddiad cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig a'r dyddiad[au] cyflenwi (gan gynnwys dyddiad[au] gwneud cais gan y sawl sydd â hawl i dderbyn y gofrestr ar gais)
Cynnal cywirdeb cofrestru a cheisiadau pleidlais absennol	<ul style="list-style-type: none"> • Cael prosesau yn eu lle i nodi unrhyw batrymau o weithgaredd a allai fod yn arwydd o broblemau cywirdeb posibl, gan gynnwys pa gamau sydd i'w cymryd i ddelio ag unrhyw broblemau o'r fath 	<ul style="list-style-type: none"> • Manylion am yr hyn yw'r trothwy ar gyfer y nifer o geisiadau pleidlais absennol a gyfeirir at unrhyw un cyfeiriad • Manylion am ba gamau sydd i'w cymryd i ddelio â phryderon ynghylch cofrestru penodol neu geisiadau am bleidleisiau absennol • Manylion o sut y mae'r dull o atal a chanfod twyll etholiadol yn cael ei gyfleu i bleidleiswyr, ymgeiswyr a chysylltiadau lleol eraill

⁴ Fel y nodwyd yn ein hadroddiad ar berfformiad Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn 2012, byddwn yn gweithio yn ystod haf 2013 i egluro beth yw'r amserlen dderbyniol ar gyfer cyflenwi, yn ymgynghori gyda Swyddogion Cofrestru Etholiadol a derbynwyr y gofrestr, a'r diffiniad hwn o 'amserol' a adlewyrchir yn ein safon a'n canllawiau a gyhoeddir ym Medi 2013.

Data cyd-destunol yn dangos cwmpas a maint yr heriau a'r cynnydd a wnaed mewn ymateb i'r heriau hyn

- Nifer y preswylwyr wedi'u graddio'n goch, ambr a gwyRDD yn dilyn paru yn erbyn data'r Adran Gwaith a Phensiynau
- Lle mae paru data lleol yn cael ei wneud, nifer y preswylwyr sydd wedi'u graddio'n goch ac ambr a oedd yn destun i baru data lleol a chanlyniadau'r paru data lleol (nifer o goch i wyrdd, ambr i wyrdd)
- Nifer o lythyrau cadarnhad a anfonwyd at breswylwyr sydd wedi cael eu cadarnhau ac a ddychwelwyd gan nad yw'r sawl y cyfeiriwyd y llythyr atynt bellach yn byw yn y cyfeiriad
- Nifer y preswylwyr heb eu cadarnhau
- Nifer y gwahoddiadau unigol i gofrestru a roddwyd i breswylwyr nad ydynt wedi'u cadarnhau
- Y gyfradd ymateb i'r holl breswylwyr nad ydynt wedi'u cadarnhau ac i bleidleiswyr absennol - gan gynnwys y nifer dilynol a gynhwysir ar y gofrestr IER, y nifer aflwyddiannus, nifer o nodiadau atgoffa a anfonwyd, a'r nifer a ddychwelwyd gan fecanwaith ymateb (gan gynnwys nifer a ddarparwyd drwy lythyr, nifer wedi'u llenwi'n electronig a'r nifer a ddychwelwyd drwy ganfaswyr personol)
- Nifer y ceisiadau a wnaed drwy'r llwybr eithriadau
- Nifer yr etholwyr ar y gofrestr sydd heb eu cofrestru'n unigol
- Nifer yr etholwyr a gariwyd ymlaen ar ddiwedd canfas 2013 wedi'i ohirio nad ydynt wedi'u cofrestru'n unigol ac felly nad ydynt wedi'u cynnwys ar gofrestr 1 Rhagfyr 2014
- Nifer yr etholwyr a oedd â phleidlais absennol cyn 1 Rhagfyr 2014 sy'n ail-ymgeisio cyn Mai 2015 ar ôl cofrestru'n unigol
- Cyfanswm nifer yr ymholiadau aelwyd gorfodol a anfonwyd ac a ddychwelwyd
- Cyfanswm nifer yr ymholiadau aelwyd gorfodol a anfonwyd yn ôl disgrisiwn y Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r nifer a ddychwelwyd
- Nifer o wahoddiadau unigol a anfonwyd o ganlyniad i HEFs a ddychwelwyd
- Cyfradd ymateb - gan gynnwys y nifer a gafodd eu cynnwys yn ddilynol ar y gofrestr IER, nifer aflwyddiannus, nifer o nodiadau atgoffa a anfonwyd, a'r nifer a ddychwelwyd drwy fecanwaith ymateb (gan gynnwys y nifer a ddarparwyd drwy lythyr, nifer wedi'u llenwi'n electronig a'r nifer a ddychwelwyd drwy ganfaswyr personol)
- Nifer y ceisiadau a wnaed drwy'r llwybr eithriadau
- Nifer yr adolygiadau o gofrestru a gynhaliwyd a chyfanswm nifer yr etholwyr a ddilëwyd
- Nifer y diwygiadau a wnaed (gan gynnwys newid enw)
- Nifer yr etholwyr a gofrestrwyd trwy gofrestru parhaus (drwy ddarparu dynodwyr)

- Nifer yr etholwyr a gofrestrwyd trwy gofrestru parhaus (drwy'r broses eithriadau)
- Nifer yr etholwyr a gofrestrwyd trwy gofrestru parhaus (drwy ardystiad)
- Nifer y ceisiadau i gofrestru drwy sianel ar-lein